**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

4 Tachwedd 2025

Annwyl John,

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol â Thai a gyhoeddwyd ar 17 Hydref 2025 ynglŷn a Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

Croesawaf gefnogaeth y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Bil ac dwi'n ddiolchgar i chi a'r aelodau am eich asesiad manwl a gonest o'r Bil. Rwyf wedi nodi ymatebion y Llywodraeth i argymhellion y Pwyllgor yn yr Atodiad sydd ynghlwm ac rwy'n falch o fod wedi derbyn neu derbyn mewn egwyddor y cyfan, heblaw un.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth o gymorth i lywio eich gwaith craffu pellach wrth i'r Bil ac dwi'n edrych ymlaen at barhau I weithio gyda'r Pwyllgor wrth i ni symud ymlaen drwy broses y Senedd.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

**Ymateb y Llywodraeth i argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 1:**<br>Rydym yn argymell bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru). | **Nodwyd** | Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried y Bil. |
| **Argymhelliad 2:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'n sylweddol y Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2026-27, ac at hynny, dylai ganfod ffyrdd arloesol o godi arian i ddarparu'r cyflenwad o dai cymdeithasol sydd ei angen i gyflawni amcanion y Bil. | **Derbyn mewn Egwyddor** | Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi asesiad manwl a chynhwysfawr o gostau'r Bil a'r gofyniad clir am fuddsoddiad ychwanegol.<br><br>Fel yr ydym wedi nodi'n glir yn ein Cytundeb Partneriaeth Strategol â llywodraeth leol, pan fydd costau ychwanegol ynghlwm wrth gyfrifoldebau newydd, efallai nad chwilio am arian ychwanegol fydd y nod bob amser, ond dod o hyd i gyllid y gellid ei ailgyfeirio o rywle arall er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl. Y tu hwnt i hynny, byddai unrhyw gyfrifoldebau newydd yn cael eu hariannu.<br><br>Mater i'r Llywodraeth nesaf fydd cyllidebau'r dyfodol, ond rwyf wedi gosod sylfeini cadarn ar gyfer y ddeddfwriaeth ac wedi rhoi'r newid angenrheidiol mewn arferion ar waith. Rydym wedi cynyddu'r Grant Cymorth Tai dros 60% er 2019–20, gan gyrraedd £204 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon. Rydym hefyd wedi trosglwyddo £21.32 miliwn o gyllid digartrefedd i'r Grant Cynnal Refeniw i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddiwallu eu hanghenion. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| | | Gyda dros £240 miliwn yn cael ei ddarparu i wasanaethau digartrefedd a gwaith atal yn 2025–26, rydym yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer y Bil. |
| **Argymhelliad 3:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparu mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy yn flaenoriaeth drawslywodraethol ac nad yw’n cael ei danseilio gan bolisïau eraill. | **Derbyn mewn Egwyddor** | Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu mwy o gartrefi a mynd i'r afael â rhwystrau i'r cyflenwad tai. Rydym wedi ymrwymo i weithio ar draws ein hadrannau i sicrhau bod darparu tai yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol. Er nad yw'n bosibl gwneud ymrwymiadau ar ran llywodraethau'r dyfodol, creu mwy o gartrefi yw un o bedair prif flaenoriaeth drawslywodraethol Prif Weinidog Cymru, a hynny’n bennaf oherwydd ein bod yn gwybod y gall tai cymdeithasol a fforddiadwy leihau tlodi, gwella iechyd corfforol a meddyliol – a helpu i sbarduno twf economaidd. |
| **Argymhelliad 4:**<br>Rydym yn argymell diwygio’r Bil i osod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen benodol sy’n nodi’r dull fesul cam o weithredu’r ddeddfwriaeth. | **Gwrthod** | Rydym wedi cyhoeddi amserlen weithredu yn yr ymateb i'r Pwyllgor Cyllid.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ddau argymhelliad yr ydym wedi'u derbyn mewn egwyddor, sef diwygio'r Bil fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu adroddiadau cynnydd i'r Senedd tuag at weithredu'r Ddeddf yn llawn a gofyniad i werthuso'r Ddeddf erbyn diwedd 2033. Credaf fod derbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor yn rhoi sicrwydd cryf y byddwn yn bwrw ymlaen yn effeithlon â gweithredu’r Bil ac nid wyf o'r farn bod angen gofyniad ychwanegol i gyhoeddi amserlen ar wyneb y Bil. |
| **Argymhelliad 5:** | **Derbyn mewn Egwyddor** | Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn ac yn nodi ei fod yn cyd-fynd ag argymhelliad 2 adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Senedd am gynnydd wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys diweddariad erbyn diwedd 2029 ar y camau y mae wedi'u cymryd tuag at ei gweithredu'n llawn. | | a'r Cyfansoddiad. Rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i baratoi gwelliant yng nghyswllt argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w gyflwyno yng nghyfnod 2. |
| **Argymhelliad 6:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith pellach i gasglu tystiolaeth ynghylch a ddylid caniatáu esemptiad i'r prawf cysylltiad lleol i grwpiau ychwanegol | **Derbyn** | Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu rhagor o dystiolaeth i lywio ei hystyriaeth o esemptiadau posibl i'r gofyniad cysylltiad lleol ac, fel mae'r Pwyllgor yn nodi, mae'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud Rheoliadau i ddarparu ar gyfer esemptiadau yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 7:**<br>Dylid cryfhau'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd i gyfeirio ceiswyr at gyngor annibynnol. | **Derbyn** | Byddwn yn cryfhau'r Cod Canllawiau newydd i sicrhau bod yr holl geiswyr yn cael eu cyfeirio at gyngor annibynnol drwy gydol eu ceisiadau digartrefedd. |
| **Argymhelliad 8:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y darpariaethau eraill sy'n effeithio ar bobl sy'n gadael gofal yn cael eu gweithredu'n ddigon cynnar i liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar bobl sy'n gadael gofal yn sgil diddymu'r prawf angen blaenoriaethol. | **Derbyn** | Byddwn yn datblygu amserlen weithredu fanwl gyda'r partneriaid cyflawni. Rwyf eisoes wedi amlinellu'r ffaith y bydd darpariaethau atal a dyrannu'r Bil yn cael eu trefnu i'w rhoi ar waith yn gynharach gan y byddant yn lleihau'r pwysau yn y system yn gyffredinol.<br>Gan fod bwriad polisi'r darpariaethau sydd wedi'u targedu at bobl sy'n gadael gofal yn canolbwyntio ar atal digartrefedd a rhoi terfyn ar ddefnyddio'r system ddigartrefedd yn ystod y cyfnod pontio, rwy'n disgwyl iddynt ddod yn rhan o'r cyfnod gweithredu cyntaf hwn. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 9:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru nodi modelau arfer da o wasanaethau cymorth dwys ar gyfer yr aelwydydd sydd â'r lefel uchaf o angen cymhleth, a dylai ddarparu'r adnoddau a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i'w gwneud yn ofynnol darparu'r gwasanaethau hyn ym mhob awdurdod lleol lle y mae eu hangen. | **Derbyn** | Mae gwaith i ddatblygu canllawiau ymarfer a nodi modelau gwaith arfer da eisoes ar y gweill, gan ddefnyddio'r arferion gorau rhyngwladol.<br><br>Mae angen ymateb gwasanaeth cyhoeddus system gyfan i fynd i'r afael â digartrefedd, yn enwedig o ran cefnogi'r rheini sy'n wynebu nifer o anfanteision ac sydd ag anghenion cymhleth. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol hyrwyddo cydweithrediad rhyngddynt hwy eu hunain a chyrff eraill, a rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref ac a allai hefyd fod angen cymorth neu wasanaethau eraill. |
| **Argymhelliad 10:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder y gellir estyn y ddyletswydd i helpu i gadw llety addas y tu hwnt i ddeuddeg mis, yn unol ag argymhellion y Panel Arbenigol, a chyflwyno gwelliant i bennu hyn ar wyneb y Bil. | **Derbyn mewn Egwyddor** | Yr oll y mae'r cyfnod amser a bennir yn y Bil yn ei nodi yw pryd mae unrhyw fater yn ymwneud â llety addas yn fwyaf tebygol o godi. Mae'r Bil eisoes yn caniatáu i'r ddyletswydd barhau y tu hwnt i ddeuddeg mis os oes angen.<br><br>Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r egwyddor o roi eglurder ynghylch yr hyblygrwydd hwnnw a byddwn yn ystyried a allai gwelliant roi rhagor o eglurder, ond gan sicrhau ar yr un pryd nad yw effaith gyffredinol y cymal yn cael ei thanseilio. |
| **Argymhelliad 11:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad pellach o'r angen posibl o dan y ddyletswydd i ddarparu cymorth i gadw llety addas drwy ddefnyddio | **Derbyn** | Roedd y gwaith a wnaed i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn drylwyr ac yn fanwl. Mae ein profiad blaenorol yn awgrymu nad yw awdurdodau lleol bob amser yn gallu darparu data ynghylch y ddyletswydd arfaethedig, a dyna pam mae'r gwaith modelu'n seiliedig ar nifer llai. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| ffigurau gan nifer uwch o awdurdodau lleol a darparu amcangyfrif diwygiedig o’r costau disgwyliedig cyn gweithredu’r ddarpariaeth hon. | | dadansoddiad pellach ac yn ymgorffori unrhyw dystiolaeth ychwanegol mewn amcangyfrif diwygiedig, cyn gweithredu. |
| **Argymhelliad 12:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i ddarparu ar gyfer adolygiad ffurfiol o effaith y ddyletswydd ‘gofyn a gweithredu’ a gyflwynwyd gan adran 21. Dylai adolygiad gynnwys sut mae’r ddyletswydd yn gweithio i’r cyrff cyhoeddus a restrir wrth atal digartrefedd a’r sefyllfa mewn perthynas â’r rhai nad ydynt wedi’u rhestru, monitro’r sectorau hyn, ac ystyried a oes angen gwneud newidiadau i’r rhestr | **Derbyn mewn Egwyddor** | Rydym yn cydnabod pwysigrwydd adolygu gweithrediad ac effaith y ddyletswydd 'gofyn a gweithredu', gan gynnwys sut mae'n gweithio i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Bil a'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhai nad ydynt wedi'u rhestru ar hyn o bryd. Byddwn yn cynnwys gwerthusiad o 'ofyn a gweithredu' yn y gwerthusiad rydym wedi ymrwymo i'w gyflawni mewn ymateb i argymhelliad 3 adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. |
| **Argymhelliad 13:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae’n disgwyl i arfer da gael ei fabwysiadu’n gyson o ran sut mae ysgolion yn nodi ac yn hysbysu awdurdodau lleol am y risg o ddigartrefedd, gan gynnwys ei rôl ei hun wrth ledaenu gwybodaeth | **Derbyn** | Ceir enghreifftiau eisoes o arfer gorau mewn sawl ysgol a byddwn yn defnyddio'r rhain i gefnogi'r gwaith hwn. Mae swyddogion yn cynllunio nifer o ffrydiau gwaith a fydd yn cefnogi ysgolion i ganfod ac atal digartrefedd, gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol sy’n bodoli eisoes, canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' a chysoni gwaith sy'n ymwneud â diogelu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Rheolwyr Ysgolion Bro ac awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion. |
| **Argymhelliad 14:**<br>Yng ngoleuni’r dystiolaeth gref o blaid cynnwys ysgolion a gofal sylfaenol ar y rhestr o gyrff cyhoeddus sy’n | **Derbyn** | Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd ei dulliau amgen gyda'r bwriad o ychwanegu'r sectorau hyn at y ddyletswydd, os oes angen, gan ddefnyddio'r pŵer i ddiwygio'r rhestr drwy is-ddeddfwriaeth. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| ddarostyngedig i'r ddyletswydd 'gofyn a gweithredu', dylai Llywodraeth Cymru fonitro effeithiolrwydd ei dulliau amgen gyda'r bwriad o ychwanegu'r sectorau hyn at y ddyletswydd os oes angen, gan ddefnyddio'r pŵer i ddiwygio'r rhestr drwy is-ddeddfwriaeth. | | |
| **Argymhelliad 15:**<br>Rydym yn cefnogi'r dystiolaeth gan NYAS ac yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru asesu'r achos dros ymestyn darpariaethau sydd wedi'u hanelu at bobl sy'n gadael gofal yn y dyfodol, fel eu bod yn berthnasol i bawb hyd at 25 oed, nid dim ond y rhai mewn addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i sicrhau bod llety addas ar gael i bobl sy'n gadael gofal a'r flaenoriaeth resymol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol, yr ydym yn eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. | **Derbyn mewn Egwyddor** | Mae'r Bil yn adlewyrchu'r chwe chategori o bobl sy'n gadael gofal a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid wyf yn credu mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng cywir i ailddiffinio pwy yw'r rhai sy'n gadael gofal ac nid ydym yn credu y byddai hynny'n ddefnyddiol at ddibenion y ddeddfwriaeth hon.<br><br>Wrth ddefnyddio'r categorïau presennol, gallwn greu system well o gymorth i'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru – gan roi eglurder i awdurdodau lleol ynghylch pwy y mae dyletswyddau'n ddyledus iddynt.<br><br>Bydd adolygiad o'r cod ymarfer, ochr yn ochr ag anghenion ehangach pobl sy'n gadael gofal, yn cael ei gynnal yn ystod tymor nesaf y Senedd a bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwnnw. Os bydd hyn yn arwain at newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol, byddai'n well gwneud hyn drwy ddiwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan y bydd angen ystyriaeth fwy helaeth gyda'r holl randdeiliaid i wneud hynny. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 16:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau presennol i ddiwygio'r gofynion addasrwydd, ac i wahardd y defnydd o lety dros dro sydd â pheryglon Categori 1 ac sy'n anaddas i bobl fyw ynddo. | **Derbyn mewn Egwyddor** | Rwyf wedi ymrwymo o hyd i ddiwygio Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 fel na ellir ystyried llety lle mae perygl categori 1 yn bresennol neu lety sy'n anaddas i bobl fyw ynddo yn llety addas. Mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth hon ac mae gweithgor rhanddeiliaid wrthi'n cael ei sefydlu. |
| **Argymhelliad 17:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y newidiadau i'w gwneud i Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer is-ddeddfwriaeth o'r fath. Dylid gwneud newidiadau i wahardd llety sy'n anaddas i bobl fyw ynddo cyn gynted â phosibl, waeth beth fo'r newidiadau pellach a wneir, yr ydym yn deall eu bod wedi'u cynllunio yn seiliedig ar yr adolygiadau llety dros dro sy'n ofynnol yn ôl y Bil. | **Derbyn** | Fel y nodir o dan argymhelliad 16, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyflwyno newidiadau i Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 er mwyn codi safonau llety ledled Cymru. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am amserlen y Rheoliadau hyn cyn gynted â phosibl. |
| **Argymhelliad 18:**<br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atgyfeiriadau wedi'u diffinio'n fanwl sy'n nodi'r amgylchiadau y gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrthod | **Derbyn** | Rwy'n cadarnhau fy ymrwymiad i gyhoeddi Cod Canllawiau sy'n rhoi sylw i bob rhan o'r Bil, gan gynnwys canllawiau sy'n ymwneud ag adran 33. Mae fy swyddogion wrthi'n paratoi gwelliant Cyfnod 2 a fydd yn gwneud hyn yn ofynnol. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| atgyfeiriad, ac sydd hefyd yn gwneud amod o rannu gwybodaeth yn effeithiol am unrhyw anghenion cymorth a allai fod gan yr ceisydd. | | |
| **Argymhelliad 19:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu safon gyffredin genedlaethol ar gyfer data ar restrau aros a dyraniadau tai cymdeithasol, gan gyhoeddi data cadarn ar lefel leol a chenedlaethol. | **Derbyn mewn Egwyddor** | Bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol ag agweddau technegol ar Gofrestrau Tai Cyffredin, gan gynnwys pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei chynnwys. Bydd rheoliadau o'r fath yn cael eu datblygu mewn cysylltiad agos ag awdurdodau lleol er mwyn pennu'r mathau o wybodaeth sydd eu hangen i sicrhau bod ceiswyr yn cael eu blaenoriaethu'n effeithiol a bod llety'n cael ei ddyrannu. Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion gwybodaeth safonol sylfaenol yn cael eu sefydlu ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.<br><br>Pan fydd Cofrestrau Tai Cyffredin wedi'u sefydlu a'u gwreiddio, byddwn yn gallu ystyried sut y gellir defnyddio setiau data lleol a chenedlaethol. |
| **Argymhelliad 20:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei hachos dros gynnwys y ddarpariaeth i greu meini prawf ar gyfer personau cymhwysol yn y Bil, ac oni bai y gall wneud hynny, dylid dileu’r ddarpariaeth. | **Derbyn mewn Egwyddor** | Mae rhestrau aros am dai cymdeithasol yn gofrestrau o bobl a fyddai'n hoffi cael tai cymdeithasol. Nid ydynt yn gofrestrau o’r angen o ran tai ac ni ellir dibynnu arnynt wrth asesu a deall yr angen o ran tai ar lefel leol a chenedlaethol.<br><br>Mae caniatáu i awdurdodau lleol bennu eu meini prawf cymhwyso eu hunain (y tu allan i grwpiau ffafriaeth resymol) yn rhoi'r cyfle gorau iddynt ddeall yr angen o ran tai yn lleol ac ymateb i ofynion demograffig lleol penodol, gan reoli disgwyliadau cymunedau lleol ar yr un pryd. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| | | Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys mesurau diogelu, gan sefydlu pwerau gwneud rheoliadau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r hyn y gellir ac na ellir ei ystyried yn feini prawf cymhwyso gan awdurdodau tai lleol. |
| **Argymhelliad 21:**<br>Gan y bydd angen diweddaru'r Cod Canllawiau i adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y ddeddfwriaeth hon, dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Canllawiau i nodi y gall awdurdod lleol ysgrifennu at ymgeisydd, gan nodi eu bod yn ystyried canfod eu bod yn fwriadol yn manipiwleiddio'r system dai, yn yr un modd ag y mae'r Cod Canllawiau yn darparu pwerau o'r fath yng nghyd-destun bwriadoldeb. | **Derbyn mewn Egwyddor** | Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor bod yn rhaid trafod goblygiadau ymddygiad a allai gael ei ystyried yn fanipiwleiddio bwriadol gyda'r ceisydd cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau bod ceiswyr yn deall canlyniadau posibl eu gweithredoedd.<br><br>Bydd canllawiau'n cael eu darparu ar sut i roi gwybod i geiswyr am y prawf a'r canlyniad. Byddwn yn ystyried a allai llythyrau 'ystyried canfod' fod yn rhan o'r broses, gan ystyried ar ba gam y bydd y prawf yn cael ei ddefnyddio a rôl llythyr o'r fath, wrth ddrafftio'r ddarpariaeth. |
| **Argymhelliad 22:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â phryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl sy'n codi o ganlyniad i adran newydd 167A(2)(b)(ii) o Ddeddf Tai 1996. Tynnodd tystiolaeth a ddarparwyd gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol sylw at sut y gallai'r prawf manipiwleiddio bwriadol effeithio'n | **Derbyn mewn Egwyddor** | Mae'r prawf manipiwleiddio bwriadol wedi cael ei ddrafftio'n ofalus i warchod rhag canlyniadau anfwriadol ac mae'n disgrifio'n glir y gweithredoedd neu'r anweithredoedd sy'n gyfystyr â manipiwleiddio bwriadol. Mae'r drafftio'n nodi'n glir, at ddibenion adran 167A(2), na ellir trin gweithred neu anweithred ddidwyll fel pe bai'n fwriadol. |

| Argymhelliad | Ymateb y Llywodraeth | Sylwadau |
|---|---|---|
| negyddol ar bobl nad ydynt efallai'n bwriadu manipiwleiddio'r system dai, ond y gellir ystyried eu bod wedi gwneud hynny o ystyried y ffordd y mae'r Bil wedi'i ddrafftio. | | Byddwn yn sicrhau bod yr hyfforddiant a'r canllawiau ategol yn cryfhau'r neges hon, gan gefnogi partneriaid cyflawni i weithredu'r ddarpariaeth yn unol ag ysbryd y Bil hwn. |

| Casgliad | Ymateb y Llywodraeth |
| --- | --- |
| **Casgliad 1:**<br>Yn ein hadroddiad gwaddol ar ddiwedd tymor y Senedd hon, byddwn yn argymell i'n pwyllgor olynol ei fod yn ceisio diweddariadau rheolaidd gan y llywodraeth nesaf ar amseriad gweithredu'r darpariaethau. | Diolch. |
| **Casgliad 2:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu ymhellach ag awdurdodau lleol i ddeall eu pryderon ynghylch lefel yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu darpariaethau sy'n ymwneud â'r Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety. | Yr awdurdodau lleol yw ein partneriaid cyflawni allweddol ac rydym wedi ymgysylltu'n agos â nhw, ynghyd â rhanddeiliaid eraill, drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda nhw wrth gynllunio ar gyfer gweithredu ac wrth i ni ddiwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| **Casgliad 3:**<br>Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb gan ein bod yn cytuno na ddylai fod yn rhan o system ddigartrefedd sy'n ystyriol o drawma. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol bryderon sylweddol ynghylch hyn, ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio cyn gweithredu i helpu pob awdurdod lleol i baratoi drwy fabwysiadu arfer da presennol i osgoi’r defnydd ffurfiol o fwriadoldeb. | Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi'r broses o symud oddi wrth fwriadoldeb, a bydd hyn yn cyd-fynd â chychwyn y Bil yn raddol. Bydd y cyngor i awdurdodau lleol yn hyrwyddo dulliau sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar arferion da. |
| **Casgliad 4:**<br>Er ein bod yn cefnogi rhoi terfyn ar fwriadoldeb i symud i wasanaeth sy'n fwy ystyriol o drawma, | Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yna ganllawiau manwl, yn seiliedig ar ddulliau sy’n ystyriol o drawma, a hyfforddiant perthnasol i gefnogi awdurdodau lleol i'w rhoi ar waith. |

| Casgliad | Ymateb y Llywodraeth |
|---|---|
| rydym hefyd yn deall pryderon y rhai sy'n poeni y gellid defnyddio manipiwleiddio bwriadol mewn ffyrdd tebyg, gan olygu nad yw pobl agored i niwed yn gallu cael mynediad at dai cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau drwy ganllawiau a hyfforddiant i sicrhau bod manipiwleiddio bwriadol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma. | Mae'r prawf manipiwleiddio bwriadol wedi cael ei ddrafftio'n ofalus i sicrhau mai dim ond i weithredoedd neu ddiffyg gweithredu bwriadol sy'n arwain at golli llety y mae'n berthnasol.<br><br>Os canfyddir bod pobl wedi manipiwleiddio'r system yn fwriadol, bydd y canllawiau'n cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod ceiswyr yn parhau i gael cymorth tai ehangach, gan gynnwys cymorth i archwilio a chael gafael ar opsiynau tai eraill. Byddant yn parhau i fod â'r hawl i gael gwasanaethau digartrefedd. |
| **Casgliad 5:**<br>Rydym yn cefnogi'r cyfnod hirach y gall atgyfeiriadau cysylltiad lleol sy'n ymwneud â charcharorion ddigwydd ynddo. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu pa mor effeithiol fydd hyn mewn gwirionedd, yn enwedig dros y ffin. Mae hwn yn faes pryder ac rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu hyn. Byddem hefyd yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y bydd hyn yn gymwys i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau ar ôl gwneud eu tymor. | O dan y Bil, gellir gwneud atgyfeiriad cysylltiad lleol chwe mis cyn rhyddhau pan fernir bod rhywun yn ddigartref. Pan fydd rhywun mewn perygl o fod yn ddigartref, gall yr atgyfeiriad ddigwydd unrhyw bryd yn ystod dedfryd, gan gynnwys ar y diwrnod cyntaf yn y carchar, ni waeth beth yw hyd y ddedfryd.<br><br>Rydym yn nodi pryder y Pwyllgor ynghylch bwlch gweithredu rhwng bwriad polisi'r Bil a'r arferion rhwng carchardai ac awdurdodau lleol ledled y DU. Y Gweithgor Llety ar ôl y Carchar, sy'n cael ei gyd-gadeirio rhwng uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, yw'r cyfrwng i wella'r canlyniadau i bobl sy'n gadael y carchar ac yn dychwelyd i Gymru. Bydd y grŵp yn rheoli ffrwd waith benodol sy'n canolbwyntio ar arferion ar draws y ffin.<br><br>Byddai unrhyw bobl sydd ar remánd yn cael eu hystyried yn ddigartref os nad oes llety ar gael iddynt yn y gymuned. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn y carchar sydd ar remánd ac sy'n cael eu rhyddhau wrth gael eu dedfrydu, neu'n fuan wedyn, yn hysbys i awdurdodau lleol, a bydd yr awdurdodau hynny mewn gwell sefyllfa i baratoi ar gyfer yr adeg pan gânt eu rhyddhau. |

| Casgliad | Ymateb y Llywodraeth |
|---|---|
| | |
| **Casgliad 6:**<br>Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar y gwaith paratoi ar gyfer gweithredu, gynnwys manylion am sut y mae'r gweithgor llety ar ôl y carchar yn bwrw ymlaen â'i drefniadau i ddiwallu'r angen am atgyfeiriadau cysylltiad lleol cynharach ar gyfer carcharorion. | Bydd diweddariadau ar waith y Gweithgor Llety ar ôl y Carchar yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau cynnydd a fydd yn cael eu gosod yn y Senedd. |
| **Casgliad 7:**<br>Rydym yn pryderu bod rhoi terfyn ar ddyletswydd i ddarparu cymorth digartrefedd yn gam cryf ac yn credu y dylid rhoi opsiynau ar gyfer darparu rhagor o gymorth ar waith cyn cymryd camau o'r fath fel dewis olaf. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i egluro mai dim ond os yw'r awdurdod lleol yn fodlon nad oes unrhyw ffordd arall y gall gyflawni swyddogaethau digartrefedd ar gyfer y ceisydd hwnnw y gellir dod â dyletswyddau i ben. | Mae'r Bil hwn yn canolbwyntio ar sut rydym yn helpu pobl, nid a ydym yn helpu pobl ai peidio. Fodd bynnag, mae yna set gyfyng iawn o amgylchiadau lle gallai fod angen dod â dyletswyddau i ben.<br><br>Rwy'n gyndyn o ddiwygio'r dyletswyddau hyn fel y mae'r Pwyllgor yn awgrymu. Yn ystod y broses ddrafftio, buom yn gweithio'n ofalus iawn i sicrhau eu bod yn cynnwys mesurau cryf i ddiogelu rhag canlyniadau anfwriadol. Yn achos eiddo sydd wedi cael ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddifrifol, dim ond os nad oes dim esgus rhesymol dros weithredoedd y ceisydd neu aelod o aelwyd y ceisydd ac nad oes dim amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r dyletswyddau barhau i fod yn gymwys y gellir dod â'r dyletswyddau i ben.<br><br>Yn achos ymddygiad treisgar neu fygythiol tuag at aelodau o'r gweithlu, dim ond os nad oes dim amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r dyletswyddau barhau i fod yn gymwys y gellir dod â'r dyletswyddau i ben.<br><br>Credaf fod y set gyfyng iawn o amgylchiadau a nodir yn y Bil yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaeth digartrefedd hygyrch ac atebolrwydd |

| Casgliad | Ymateb y Llywodraeth |
| --- | --- |
| | ceiswyr. Nid yw trais yn erbyn pobl sy'n cyflawni swyddogaethau digartrefedd yn dderbyniol, ac nid yw'n dderbyniol ychwaith i fynd ati'n fwriadol i ddifrodi eiddo'n ddifrifol neu ei ddinistrio. |
| **Casgliad 8:**<br>Rhaid i'r canllawiau ar ymddygiad annerbyniol sy'n dod â dyletswyddau i ben fod yn gryf a phwysleisio na ddylid dod â dyletswyddau goroeswyr cam-drin i ben o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol person camdriniol sy'n preswylio gyda nhw. | Mae'r Bil wedi cael ei ddrafftio i sicrhau mai'r unig adeg y gellir dod â dyletswyddau i ben yw mewn ymateb i ymddygiad annerbyniol lle nad oes dim 'amgylchiadau arbennig' sy'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd berthnasol barhau i fod yn gymwys. Bwriad hyn yw cynnwys achosion lle mae partneriaid camdriniol ac ati yn ymddwyn yn annerbyniol a lle byddai'n annheg i aelwydydd cyfan golli eu cefnogaeth.<br><br>Bydd canllawiau clir a chadarn yn cael eu datblygu i gyd-fynd â'r Bil, gan nodi enghreifftiau o amgylchiadau arbennig, a chamau eraill y gallai fod yn briodol i awdurdodau lleol eu cymryd i gefnogi aelodau eraill yr aelwyd mewn amgylchiadau o'r fath. Rydym yn bwriadu datblygu'r canllawiau hyn gyda phartneriaid arbenigol, gan gynnwys arbenigwyr ar gamfanteisio a cham-drin domestig. |
| **Casgliad 9:**<br>Bydd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a phecynnau hyfforddi yn hanfodol o ran gallu nodi arwyddion digartrefedd ac o ran sut i ymateb. Rydym yn nodi o'r amserlen weithredu a grybwyllwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet fod y ddyletswydd i fod i ddechrau fel rhan o'r ail gam yn 2028-29, ac er bod amser sylweddol i gynllunio ymlaen llaw, rhaid defnyddio'r amser hwn yn ddoeth. | Mae hyfforddiant yn hanfodol er mwyn rhoi 'gofyn a gweithredu' ar waith yn effeithiol ac mae hyn wedi cael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r gwaith cynllunio cyn gweithredu eisoes ar y gweill, gan gynnwys dysgu yn sgil gwaith cynlluniau peilot, cyflwyno darpariaethau tebyg yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a chanfod llwyfannau dysgu priodol. |

| Casgliad | Ymateb y Llywodraeth |
| --- | --- |
| **Casgliad 10:**<br>Bydd gweithredu effeithiol yn allweddol i lwyddiant y darpariaethau 'gofyn a gweithredu' a rhaid i randdeiliaid fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio system sy'n gweithio i bawb. Rhaid i brofiad CAVHIS a mewnbwn cyrff eraill fod ar flaen y gad o ran cynllunio ar gyfer gweithredu. | Mae ymgysylltu a gweithio'n gydgynhyrchiol wedi bod yn rhan ganolog o ddatblygu'r Bil hwn a bydd hynny'n parhau i fod yn wir. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gynllunio sut y gellid cyflwyno 'gofyn a gweithredu' yn effeithiol a sut y bydd anghenion hyfforddi'n cael eu diwallu. |
| **Casgliad 11:**<br>Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau cryf ar y defnydd o'r pŵer i atgyfeirio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yn rhaid i ddarpariaethau newydd y Bil sy'n ymwneud â chydweithredu rhwng awdurdodau tai lleol a landlordiaid cymdeithasol gael eu hategu gan ganllawiau ymarfer technegol. Fel y nodwyd yn ein hymateb i argymhelliad 18, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu canllawiau o'r fath ac rydym yn bwriadu cyflwyno gwelliant cyfnod 2 i wneud hyn yn ofynnol.<br><br>Bydd y canllawiau hyn yn ymdrin â'r amserlen resymol i landlord cymdeithasol gynnig llety yn dilyn cais gan awdurdod tai lleol; rhesymau da dros beidio â chynnig llety; a cheisiadau rhesymol am wybodaeth am lety landlord cymdeithasol. Darperir canllawiau hefyd am y broses pe bai awdurdod lleol yn cyfeirio achos at Weinidogion Cymru i'w ystyried.<br>Bydd y canllawiau hyn yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac ymgynghorir arnynt, fel sy'n ofynnol gan y Bil. |
| **Casgliad 12:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y mae'n bwriadu monitro effaith y darpariaethau o ran derbyniadau a gwrthodiadau dyraniadau. | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod prinder data ynghylch dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Rydym yn derbyn pwysigrwydd monitro effaith y darpariaethau sy'n ymwneud â dyraniadau, yn enwedig o ran cydymffurfio â cheisiadau a wneir |

| Casgliad | Ymateb y Llywodraeth |
|---|---|
| | gan awdurdodau tai lleol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gynnig llety. Rydym wedi ymrwymo i dryloywder ac atebolrwydd wrth weithredu'r Bil a byddwn yn ystyried sut orau i fonitro hyn, gan wneud hynny gydag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, gyda'r bwriad o gael darlun cyson ac ystyrlon o effeithiolrwydd y darpariaethau dros amser. |
| **Casgliad 13:**<br>Credwn, ar ôl iddynt gael eu gweithredu, y bydd angen monitro'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydweithredu rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ofalus i asesu sut maent yn gweithio'n ymarferol. | Dylai'r ddyletswydd i gydweithredu rhwng awdurdodau tai lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn seiliedig ar well gweithio mewn partneriaeth yn gyffredinol rhwng partneriaid sy'n darparu tai. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r partneriaid ar y ddwy ochr drwy gydol y broses weithredu ac yn archwilio'r cyfleoedd i ddeall ac asesu gwaith yn ymarferol. |
| **Casgliad 14:**<br>Bydd angen canllawiau clir ar weithredu'r pŵer yn adran 35 i bennu categorïau o bobl sy'n gymwys ar gyfer tai cymdeithasol. Er bydd awdurdodau lleol angen hyblygrwydd i ddefnyddio'r pŵer i ddiwallu eu hanghenion lleol, dylid osgoi gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru er mwyn atal loteri cod post. Dylai'r canllawiau hefyd fod yn glir y dylid glynu wrth ddeddfwriaeth cydraddoldeb wrth benderfynu ar feini prawf cymhwyso. Dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn rhan o drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch beth ddylai fod yn 'feini prawf cymhwyso'. | Wrth wneud newidiadau i'w cynlluniau dyrannu tai cymdeithasol, mae adran 167(7) o Ddeddf Tai 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol rannu eu cynigion â phob partner landlord cymdeithasol a rhoi amser iddynt ymateb. Gan eu bod yn awdurdodau cyhoeddus, mae awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth hawliau dynol a chydraddoldeb.<br><br>Mae'r Bil yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol i anghenion tai lleol. Pan fydd awdurdodau lleol yn dewis defnyddio'r pŵer hwn, bydd yn rhaid iddynt sicrhau bod pawb sy'n perthyn i grŵp ffafriaeth resymol yn gymwys (oni bai eu bod yn anghymwys ar sail ymddygiad annerbyniol).<br><br>Bydd canllawiau cadarn yn cael eu datblygu i gefnogi rhoi hyn ar waith ac i sicrhau ei fod yn bodloni bwriad y polisi i helpu i reoli rhestrau aros a'r arbedion posibl o ran adnoddau a wneir o ganlyniad. |

| Casgliad | Ymateb y Llywodraeth |
|---|---|
| **Casgliad 15:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer personau cymhwysol a'i dileu yn y dyfodol os nad oes ei hangen mwyach neu os yw'n achosi canlyniadau sylweddol anfwriadol. | Byddwn yn adolygu'r defnydd o'r ddarpariaeth hon lle mae awdurdodau lleol yn dewis ei defnyddio.<br><br>Mae'r Bil yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb yn effeithiol drwy bwerau gwneud rheoliadau lle nad yw'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd. |
| **Casgliad 16:**<br>Nid yw anghymhwyso o ddyraniad tai cymdeithasol yn darparu ateb cynaliadwy i fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol a dylid darparu cymorth pellach cyn cymryd camau o'r fath. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cryf sy'n seiliedig ar drawma i sicrhau mai dim ond mewn achosion eithafol y defnyddir gwaharddiad o dai cymdeithasol. | Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i anghymhwyso person rhag cael llety wedi'i ddyrannu iddynt os ydynt hwy, neu aelod o'u haelwyd, wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i olygu eu bod yn anaddas i fod yn denant ac os yw'r person hwnnw, ar yr adeg yr ystyrir y cais, yn dal i gael ei ystyried yn anaddas fel tenant oherwydd yr ymddygiad hwnnw. Mae'r Bil yn rhoi pwyslais ar risg ar y pryd, yn hytrach na risg hanesyddol, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried, yn benodol, y tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad hwnnw'n digwydd eto. Cafodd ystyr ymddygiad annerbyniol ei gyfyngu o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac, o'r herwydd, dim ond nifer fach o achosion ddylai gyrraedd y trothwy uchel hwn a pheidio â bod yn gymwys ar gyfer tai cymdeithasol.<br><br>Fel gyda phob elfen arall o'r Bil, bydd canllawiau cadarn yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o weithredu hyn a hyrwyddo dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma. |
| **Casgliad 17:**<br>Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i ystyried diwygio'r Bil i ganiatáu i fathau penodol o ddyrannu tai cymdeithasol ddigwydd y tu allan i'r gofrestr tai gyffredin, ac yn gofyn am ddiweddariad fel rhan o'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil. | Rydym yn cydnabod y gallai drafft cychwynnol y Bil fod yn rhy gyfyngol ac rydym yn ystyried gwelliant y gellir ei gyflwyno yng nghyfnod 2 i fynd i'r afael â hyn. |